Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Felicity Baker**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Tachwedd 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn lleoliad y gwarchodwr plant. Maent yn gyfarwydd â'r lleoliad ac yn setlo'n gyflym. Mae'r plant yn dewis yr hyn y maent am chwarae ag ef yn hyderus ac yn rhannu teganau ac adnoddau. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl o'u cwmpas.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gymwys ynghylch sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddi ddealltwriaeth glir o'i rôl i ddiogelu'r plant. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau priodol i gefnogi'r plant.

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau boddhaol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Gall y plant ddefnyddio ardal chwarae ddigonol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau addas.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o ddogfennau a pholisïau priodol ar waith. Mae'n sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn cael eu cadw ac yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

| Llesiant | Da |
| --- | --- |

Mae'r plant yn cael rhywfaint o gyfleoedd priodol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae. Gallent ddewis ble i chwarae, a beth i chwarae ag ef, a chafodd hyn ei barchu gan y gwarchodwr plant. Maent yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn ymateb yn gadarnhaol i'w cyfathrebu, ac mae hyn yn rhoi hyder iddynt. Er enghraifft, pwyntiodd un o'r plant at ei eiddo, ac er mwyn canfod beth oedd y plentyn ei eisiau, dangosodd y gwarchodwr plant bethau gwahanol i'r plentyn nes iddi ddangos yr hyn yr oedd y plentyn ei eisiau.

Mae gan y plant ymdeimlad clir o berthyn. Maent yn dod i'r lleoliad ac roeddent wedi setlo ac yn hapus. Maent yn hyderus, gan symud o un ardal i'r llall, yn cyfarch ei gilydd a'r gwarchodwr plant, ac yn penderfynu beth i'w wneud. Er enghraifft, gallai'r plant benderfynu pryd i gael byrbryd a chinio. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad. Pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad, maent yn gwneud penderfyniadau'n gyflym am yr hyn y maent am ei wneud, gyda rhai yn dewis ymlacio a gwylio'r teledu ac eraill yn mynd i'r ystafell chwarae i chwarae.

Mae'r rhyngweithio rhwng yr oedolion a'r plant yn gadarnhaol. Mae'r plant yn gwneud ceisiadau llafar a dieiriau yn hyderus. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn ymestyn ei freichiau er mwyn dangos ei fod am gael ei godi. Mae gan y plant gydberthynas dda â'u cyfoedion. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, gan ddangos gofal a charedigrwydd. Er enghraifft, pan ganodd cloch y drws, gwnaethant ofyn yn gyffrous a oedd eu ffrind wedi dod i chwarae. Mae'r plant yn rhannu adnoddau a theganau â’i gilydd yn hapus.

Mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o adnoddau ac yn canolbwyntio am gyfnod o amser sy'n briodol i'w hoedran. Caiff y plant gyfleoedd i ymlacio a mwynhau amser tawel. Maent yn mwynhau dilyn eu diddordebau eu hunain a chael dewis rhydd o weithgareddau. Gwnaethant symud yn hyderus o gwmpas yr ardal fwyta a'r heulfan ac roeddent yn estyn y teganau roeddent am chwarae â nhw. Er enghraifft, aeth y plant â'r doliau o'r heulfan i'r ystafell fwyta er mwyn eu ‘bwydo’ â photel.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad braf o gyflawniad. Gallant archwilio'r adnoddau o'u cwmpas a'u defnyddio fel y dymunant. Er enghraifft, dechreuodd un plentyn ddefnyddio bric plastig i chwythu drwyddo, a dywedodd un arall ei fod am greu dynion ohono. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan gynnwys bwydo eu hunain neu dynnu eu hesgidiau.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo diogelwch a llesiant personol yn foddhaol. Yn gyffredinol, mae'r arferion hylendid yn ddigonol. Er enghraifft, cafodd rhai o'r plant eu hannog i olchi eu dwylo cyn cael byrbryd. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei wneud yn gyson. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth glir o'i chyfrifoldebau i ddiogelu'r plant. Trafododd yr hyn y byddai'n ei wneud pe bai ganddi unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant yn addas. Mae gan y gwarchodwr plant brosesau priodol ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau, digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn rhagweithiol wrth asesu ac ymdrin â risgiau bob dydd. Mae'n trafod diogelwch â'r plant yn gyson, ac yn defnyddio cyfarpar fel giatiau diogelwch i leihau risgiau i'r plant. Er enghraifft, pan oedd y plant yn symud adnoddau o un ystafell i'r llall, cawsant eu hatgoffa gan y gwarchodwr plant i fod yn ofalus oherwydd gallai rhai o'r teganau fod yn drwm iddynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn gyson i anghenion y plant, eu dymuniadau a'u ceisiadau. Mae'n siarad â'r plant yn gyson, gan ofyn iddynt am eu chwarae neu eu cefnogi. Er enghraifft, pan ddaeth â'r briciau allan, gofynnodd i'r plant "*what are you going to make*?" ac ymatebodd y plant ymateb yn frwdfrydig. Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb i ystumiau llafar a dieiriau'r plant. Mae'n rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith, gan ddefnyddio dulliau tynnu sylw yn dda wrth ymdrin â siomedigaeth y plant. Aeth y gwarchodwr plant i'r afael ag unrhyw fân anghytundebau rhwng y plant yn briodol. Mae gan y plant gydberthynas gadarn iawn â'r gwarchodwr plant, ac roedd hyn yn amlwg drwy gydol yr arolygiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o anghenion, hoff bethau a chas bethau unigol y plant. Mae'n adnabod y plant hyn yn dda iawn, gan nodi galluoedd a datblygiadau'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau dyddiol y plant â'r rhieni. Mae'n cynnig amrywiaeth briodol o weithgareddau i ddatblygu sgiliau, chwarae ac annibyniaeth y plant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n cynllunio ar gyfer camau nesaf y plant o ran eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth glir o'r hyn y dylai ei wneud os bydd ganddi unrhyw bryderon am ddatblygiad plentyn. Mae'n hyrwyddo datblygiad y Gymraeg, gan siarad â'r plant yn ddwyieithog drwy gydol eu hamser yn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn sicrhau bod y plant yn ddiogel yn ei chartref. Mae'r safle yn ddiogel, mae'r drws ffrynt ar glo bob amser, ac mae'n cadw cofnod o ymwelwyr â'r lleoliad. Mae asesiadau risg cyffredinol sylfaenol ar waith sy'n cwmpasu'r prif ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd angen gwagio'r adeilad os bydd tân. Mae gan y gwarchodwr plant yr yswiriant priodol ar waith ac roedd ei gwiriad diogelwch nwy a gwiriad llosgydd pren wedi cael eu cwblhau. Mae giatiau diogelwch ar waith er mwyn sicrhau na all y plant fynd i ardaloedd nad ydynt yn addas ar eu cyfer.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digon o le i'r plant symud yn rhydd ac archwilio. Mae ganddynt ddefnydd o'r heulfan, lle i ymlacio, a lle ar y llawr a'r bwrdd i chwarae. Mae'r gofod yn olau, yn agored ac mewn cyflwr da. Mae gan y gwarchodwr plant gynlluniau wrth gefn i ddelio â newidiadau mewn tymheredd. Mae ardal awyr agored fawr a hyfryd ar gael i'r plant ei defnyddio yn rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i'r parc lleol er mwyn treulio amser yn yr awyr agored. Mae'n sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio adnoddau yn annibynnol drwy ddarparu mannau storio, dodrefn a chyfarpar ar lefel isel i gefnogi eu datblygiad a dysgu hunangyfeiriedig. Gall y plant ofyn am unrhyw adnoddau sy'n cael eu cadw y tu hwnt i'w cyrraedd.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o adnoddau ar gael i'r plant sydd o ansawdd boddhaol ac yn briodol ar gyfer eu hoedran. Maent yn amrywiol er mwyn cynnal diddordebau'r plant ac mae digon ohonynt er mwyn rhoi dewis i'r plant. Er enghraifft, mae amrywiaeth o adnoddau adeiladu, jig-sos, dillad gwisgo i fyny, ac adnoddau byd bach ar gael. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o adnoddau ar gael yn yr awyr agored, gan gynnwys siglen, ceir reidio a thŷ chwarae.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn ddigonol. Mae ganddi ddatganiad o ddiben boddhaol ar waith, sy'n rhoi adlewyrchiad digonol o'r lleoliad. Mae nifer o bolisïau priodol ar waith gan gynnwys polisi anifeiliaid anwes, ac mae'n sicrhau y caiff y rhain eu rhoi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain na dogfennau eraill yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cofnodion gofynnol yn cael eu cwblhau, gan gynnwys contractau, gwybodaeth am y plant, caniatadau a gwybodaeth gyffredinol. Mae'r gwarchodwr plant yn agored i awgrymiadau am sut i wella ei lleoliad ac mae wedi gwneud gwelliannau i'r lleoliad yn gyflym yn dilyn yr arolygiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ansawdd ei gofal yn flynyddol. Mae'n gofyn am awgrymiadau gan y plant a'u rhieni/gofalwyr drwy drafodaethau a holiaduron rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant wedi llunio adroddiad priodol ar ansawdd y gofal, gan fyfyrio ar safbwyntiau'r plant a'r rhieni yn ogystal â chynnwys targed i wella ei lleoliad. Mae ganddi broses ddigonol ar waith i ymdrin ag unrhyw gwynion.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau nad yw'n mynd dros yr uchafswm a bennwyd ar gyfer ei niferoedd cofrestredig ac mae'n cadw cofnod clir o'r amseroedd pan fydd yn gwarchod plant. Mae'n ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn rheolaidd gan gynnwys diogelu, hylendid bwyd a chymorth cyntaf. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrifau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod o'r cartref. Fodd bynnag, mae tystysgrif DBS y gwarchodwr plant wedi dod i ben. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi mynd ati i ddechrau'r broses o gael tystysgrif DBS newydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu'n glir, ymgysylltu a chydweithio â rhieni a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni a'r gofalwyr drwy negeseuon, lluniau a sgyrsiau llafar, gan addasu i ddiwallu anghenion y rhiant. Mae gan y gwarchodwr plant gydberthynas dda â'r rhieni sy'n defnyddio ei lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn eithriadol o hapus gyda'r gwarchodwr plant, bod eu plant yn cael yr amser gorau gyda hi, a'i bod yn sicrhau bod y rhieni'n cael gwybodaeth am eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod ganddi dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau yr arsylwir ar yr hyn y mae'r plant yn ei wneud ac y caiff ei gofnodi er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod yr arferion hylendid yn gyson. |
| Sicrhau y caiff pob dogfen ei hadolygu o leiaf bob blwyddyn a'i diweddaru pan fo angen. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/11/2024